**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Mawrth 14eg 2022 yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Geraint Jones, Wenda Williams, Dafydd Williams, Tim Rosa, Emlyn Jones, Mari Evans a Jaci Jones
**Yn y gadair:** Y Cyng Nesta Roberts
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>**: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Iain Roberts, Gwenllian Hughes Jones, Wil Evans ac RJ Williams
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14eg o Chwefror 2022</u>:** Nodwyd mai palmant, nid llinellau melyn sydd ei angen rhwng stad Bro Hywyn a'r ysgol. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**a)Ail baentio llinellau:** Derbyniwyd ateb gan y Peiriannydd Ardal i'r gwyn am linellau ar y ffyrdd angen eu ail baentio, gan adrodd y bydd y gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y gyllideb. Mae aelodau y Cyngor Cymuned o'r farn fod angen gwneud y gwaith ar frys.
**b)Palmant o stad Bro Hywyn at yr ysgol:** Cyflwynwyd pedair opsiwn gan Gyngor Gwynedd, trafodwyd yr opsiynnau a phenderfynwyd drwy bleidlais mai opsiwn 2 y mae'r Cyngor Cymuned yn ei ffafrio.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd gan gynnwys adolygu prisiau y fynwent:** Penderfynwyd adolygu y prisiau gan godi £20 ar bob un o'r ffioedd ar gyfer pobl leol, a chodi £500 ar bob un ffî i bobl o'r tu allan i'r gymuned, h.y £500 ar draws y bwrdd. O ganlyniad bydd y ffioedd fel a ganlyn:
Ardalwyr:
Lle bedd - £165
Ail agor bedd - £165
Claddu llwch - £140
Lle cadw - £170
Gosod carreg - £105
Ail osod carreg - £90
Splayed vase - £120
Defnydd o'r eglwys - £120 (yr eglwys ddim ar gael i'w defnyddio ar hyn o bryd)

Pobl o'r tu allan i'r gymuned:
Lle bedd - £500
Ail agor bedd - £500
Claddu llwch - £500
Gosod carreg - £500
ail osod carreg - £500
splayed vase - £500
Lle cadw - £500

Yn dilyn gwyntoedd cryf yn ddiweddar mae llechi a theils crîb wedi syrthio oddi ar do yr eglwys. Mae Owen Vaughan Jones wedi clirio y llanast o'r fynwent a diolchwyd iddo am hynny. Mynegwyd pryder am ei chyflwr a phenderfynwyd ysgrifennu erthygl i'w rhoi yn Llanw Llŷn yn egluro y sefyllfa ac yn gwahodd pobl i gyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Crud y Werin ar y 28ain o Ebrill.
Penderfynwyd cysylltu gyda Unllais Cymru a Cadw i egluro y sefyllfa a gofyn am gyngor o ran iechyd a diogelwch pobl sydd yn ymweld â'r fynwent. Nid yw Adran Eiddo Cyngor Gwynedd wedi ymateb ynghylch y cyfansoddiad, penderfynwyd anfon at y Prif Weithredwr. Bydd y Cynghorwyr Emlyn Jones a Wenda Williams yn gwneud archwiliad iechyd a diogelwch o'r fynwent cyn y cyfarfod nesaf.
**iii)Canolfan Crud y Werin:** Mae pennaeth yr ysgol wedi hysbysu y clerc y bydd pwyllgor y ganolfan yn cyfarfod cyn diwedd y mis a byddant yn ymateb yn uniongyrchol i'r Cyngor

Cymuned trwy lythyr yn dilyn y cyfarfod.
**iv)Meddygfa Rhydbach:** Mae llythyrau wedi eu hanfon yn dilyn cyfarfod mis Chwefror, mae cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn gan Mabon ap Gwynfor, Eluned Morgan ac Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr ac arhosir am ymatebion ffurfiol. Mae Liz Saville Roberts wedi ymateb gan egluro fod y mater y tu hwnt i'w chyfrifoldeb hi fel Aelod Seneddol ond ei bod yn ymwybodol o'r pryderon.
**vii)Hysbysfyrddau newydd:** Eglurodd y clerc ei fod yn y broses o baratoi cais i'r adran AHNE am hysbysfyrddau i Aberdaron ac Y Rhiw.
**viii)Gwifrau BT:** Mae cwyn wedi ei chyflwyno am wifrau yn hongian oddi ar bolion yn yr ardal, ac adroddwyd fod BT wedi bod yn yr ardal yn eu harchwilio.
ix)Parcio yn Aberdaron: Cynhaliwyd cyfarfod rhwng sywyddogion Cyngor Gwynedd a chynrhychiolwyr lleol fore Gwener yr 11eg o Fawrth a derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Jones. Canlyniad y cyfarfod oedd fod Menter Môn am ariannu astudiaeth o'r sefyllfa gan ddod fyny efo gwahanol gynigion i geisio lleddfu effaith parcio ar y pentref yn ystod y tymor ymwelwyr. Mae ymgymerwr yr astudiaeth am ddod lawr i Aberdaron benwythnos y Pasg ac am gysylltu efo busnesau a mudiadau lleol i geisio gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa cyn eistedd lawr a llunio adroddiad ac argymhellion. Gobeithi'r y bydd defnydd o faes parcio Ysgol Crud y Werin yn helpu y sefyllfa.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
i)Llythyr gan Bleddyn Jones ynghylch Awyr Dywyll: Er gwybodaeth.
ii)Llythyr gan Ynni Ni yn estyn gwahoddiad i'r aelodau ymuno gyda cynllun Gwyrddni i greu Cynulliad Hinsawdd Llŷn
ii)Llythyr gan Sharon Williams yn gofyn am fan cadw yn mynwent yr Eglwys Newydd wrth ochr bedd ei mam. Penderfynwyd caniatau y cais am fan cadw.
iii)Llythyr ynglyn a dyfodol Parêd Dewi Sant: Gadwayd ar y bwrdd er gwybodaeth
**6)Tendrau torri gwellt y fynwent a'r llwybrau am gyfnod o ddwy flynedd:**
**Mynwent yr Eglwys Newydd:** Derbyniwyd pris o £2,100 gan Gerddi Gwell, penderfynwyd derbyn y pris ar yr amod fod asesiad risg a chopi o yswyriant y contractwr yn cael ei gyflwyno cyn dechrau ar y gwaith.
**Torri Llwybrau yr ardal:** Derbyniwyd pris o £850 gan Hyuw Williams yn ogystal a chopi o'i yswyriant. Derbyniwyd y pris ar yr amod fod asesiad risg yn cael ei gyflwyno cyn dechrau ar y gwaith. Bydd angen adolygu y llwybrau sydd yn cael eu torri cyn rhoi y dendr allan mewn dwy flynedd.
**7)Biniau halen:** derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn Rhagfyr 2021 yn hysbysu y cyngor y bydd lleoliadau biniau halen yn cael eu hadolygu, y byddant yn cael eu hail osod a'u llenwi ac y bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda y Cyngor Cymuned, Does dim pellach wedi ei dderbyn, mae'r clerc i wneud ymholiadau.
**8)Ceisiadau am gyfraniadau ariannol:**
i)Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023: Yn unol a phenderfyniad y Cyngor ddyw flynedd yn ôl, cytunwyd mewn egwyddor i roi cyfraniad ond penderfynwyd aros tan fis Mawrth 2023 i weld faint o arian y llwyddir i'w gasglu trwy wahanol weithgareddau yn lleol cyn penderfynu ar swm
ii)Apêl O Ddrws i Ddrws: Nid oedd mantolen wedi ei chynnwys a phenderfynwyd gofyn am un
iii)Amgueddfa Forwrol Llŷn: Nid oedd mantolen wedi ei chynnwys a phenderfynwyd gofyn am un.
Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £200 yr un i Ganolfan Deunant, Neuadd Rhoshirwaun a Neuadd Y Rhiw.
**9) <u>Cynllunio</u>**
C22/0182/30/DT: Estyniad unllawr, Pelydryn, Aberdaron: Mynegwyd pryder ynghylch y bwriad gan yr aelod lleol, y Cyng Gareth Roberts oherwydd maint y datblygiad a'i effaith ar fwynderau trigolion cyfagos. Penderfynwyd cytuno efo sylwadau y Cynghorydd Sir.
C21/1242/30/AM: Cais amlinellol gyda phob mater wedi gadw'n ôl, ag eithrio'r fynedfa, i godi tŷ unllawr a hanner Tir Tu Cefn i Bronant A Talafon, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad.

C22/0133/30/YA: Rhybudd ymlaen llaw o ddatblygiad amaethyddol ar gyfer codi storfa porthiant a pheiriannau amaethyddol, Pant Valley, Rhydlios: Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu y datblygiad gan fod amheuon mai nid ar gyfer defnydd amaethyddol y bwriedir defnyddio yr adeilad.
C22/0090/30/LL: Balconi arfaethedig ar y rhan bresennol o do fflat er mwyn cael golygfa o'r môr, Tŷ Newydd, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad

**10)Ariannol**

**Taliadau**

Iwan Hughes: £186.29
HMRC (Paye): £46.40
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O)
Grwp Twristiaeth: £100 (cyfraniad coeden Nadolig)
Scottish Power(trydan yr eglwys): £32.25, sydd yn gadael balans o £405.23 mewn credyd
Ffioedd banc: £6.20

**Derbyniadau**

Llechen Llŷn: £75 (gosod carreg Enid Hughes)

**11) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Gofynwyd am roi cynllun i ddenu mwy o ieuenctid i ddefnyddio stafell snwcer Canolfan Deunant ar raglen cyfarfod mis nesaf.
ii)Mae gwter wedi cau ym mhen lôn Pen Rhos, Rhoshirwaun
iii)Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod diweddar o bwyllgor ardal Unllais Cymru gan y Cyng Wenda Williams. Bydd y Comisiynydd Iaith yn mynychu y cyfarfod nesaf a gofynwyd i gwestiwn gael ei ofyn ynghylch yr opsiynnau iaith ar y gwasanaeth ffôn yn Meddygfa Rhydbach.
iv)Adroddwyd fod cais cynllunio Tŷ Tan Fron Wedi ei wrthod ond mae graddfa y llwybr troed yn serth iawn yn dilyn y gwaith datblygu sydd eisioes wedi cymeryd lle yno.
v)Derbyniwyd cwyn am y bagiau baw ci sydd wedi eu gadael yng nghyffiniau Tan Fron, Y Rhiw, penderfynwyd gofyn am fin sbwriel yno.
vi)Adroddwyd fod llanast ar ochrau y ffordd yn ardal Rhoshirwaun ar ôl y lori ailgylchu, mae'n ymddangos nad ydi y fflapiau yn cael eu cau yn iawn gan y gweithwyr.
vii)Gofynwyd i swyddog O Ddrws i Ddrws fynychu cyfarfod mis Ebrill i drafod y Bws Fflecsi.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, nos Lun, Ebrill 11eg yn Neuadd Y Rhiw am 7yh.**